| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **23 MEDI 2011** |
| **TEITL** | **STRATEGAETH BUDDSODDI** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Cynhaliwyd cyfarfod chwarterol y Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 27 Gorffennaf 2011 yng Nghaernarfon. Trafodwyd nifer o newidiadau i'r strategaeth buddsoddi.

## 2. ECWITI COFRESTREDIG – DYRANIAD RHANBARTHOL

**2.1** Derbyniwyd adroddiad gan Hymans ar gynnig newid rhaniad a barn y Panel oedd y dylid mabwysiadu targed rhaniad 30/70 o blaid ecwiti dramor yn hytrach na'r rhaniad 40/60 presennol.

## 3. BUDDSODDIAD MEWN IS-ADEILADWAITH

**3.1** Yn dilyn ystyried adolygiad o'r strwythur buddsoddi ym mis Mai cyflwynwyd papur ar fuddsoddi mewn is-adeiladwaith gan Paul Potter o Hymans Robertson.

**3.2** Barn y Panel oedd y dylid gwneud rhaniad o 2.5% i fuddsoddiad mewn is-adeiladwaith gyda'r bwriad o gynyddu'r rhaniad i 5% yn y tymor hirach. Er mwyn cyflawni'r newid bydd angen lleihau'r dyraniad i ecwiti.

**3.3** Cytunwyd yng nghyfarfod y Panel i'r swyddogion ymchwilio'r ffordd gorau i symud ymlaen gyda buddsoddiad mewn is-adeiladwaith. Mae'r opsiynau yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd a bydd adroddiad pellach i'r Pwyllgor pan bod angen gwneud penderfyniad ar y buddsoddiad penodol.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor cadarnhau'r dyraniadau yn unol â barn y Panel Buddsoddi.